

## **Datganiad Rhesymau**

### **Cyflwyniad Arfaethedig Cynllun Parcio Preswylwyr - Parth 8.**

Cynigir y cyfyngiadau parcio canlynol ar Cheltenham Terrace, Freeschool Court, Jenkin Street, South Place, Suffolk Street, Pen-y-bont ar Ogwr (Parth 8) i gadw cyfran o'r lleoedd parcio ar y stryd i breswylwyr yn unig wrth ganiatáu i ymwelwyr/deliferi i barcio mewn cilfan aros cyfyngedig am gyfnod cyfyngedig o amser neu yn y strydoedd anghyfyngedig heb fod angen caniatâd, ac i atal neu leddfu tagfeydd.

Yn ychwanegol fel rhan o'r cynigion, ystyrir ei bod yn angenrheidiol amrywio Gorchymyn Cyngor Sir Morgannwg (Ffyrdd Amrywiol, Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Mynediad), 1973 ("Gorchymyn 1973") i gael gwared ar y ffyrdd yn y tabl isod. Pwrpas y Gorchymyn arfaethedig yw galluogi cerbydau sy'n teithio tuag at y ffyrdd a bennir yng Ngholofn 1 o'r tabl i fynd i mewn i'r ffyrdd a bennir mewn perthynas â'r ffordd honno yng Ngholofn 2.

1.	2.
<b>Nolton Street</b>	<b>Free School Court</b>
<b>Coychurch Road</b>	<b>South Place</b>

Ystyrir ei bod yn briodol amrywio gorchymyn 1973 at y dibenion a gynhwysir yn Adran 1(c) ac 1(f) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:

- (c) ar gyfer hwyluso taith unrhyw ddosbarth o draffig (gan gynnwys cerddwyr) ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall.
- (f) ar gyfer gwarchod neu wella mwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi

### **CYFLWYNO LLEOEDD PARCIO TRWYDDEDAU PRESWYLWYR O DAN ADRAN 45 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984:**

#### **Suffolk Street, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar ochr ddeheuol y ffordd o bwynt 10m (11 llath) i'r dwyrain o ymyl palmant gorllewinol Cheltenham Terrace am bellter o 56.5m (62 llath) i gyfeiriad y dwyrain.

#### **Jenkin Street, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar yr ochr orllewinol o ffin 2/4, Jenkin Street, am bellter o oddeutu 97 metr (106 llath) i gyfeiriad y de.

Ar yr ochr ddwyreiniol o ffin 1/3, Jenkin Street, am bellter o oddeutu 73 metr (80 llath) i gyfeiriad y de.

Ar yr ochr ddwyreiniol o bwynt 79 metr (86 llath) i'r de o ffin 1/3 Jenkin Street am bellter o oddeutu 13 metr (14 llath) i gyfeiriad y de.

### **South Place, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar ochr orllewinol y ffordd, o bwynt 5 metr (5 llath) i'r de o ymyl palmant deheuol Suffolk Street am bellter o oddeutu 24 metr (26 llath) i gyfeiriad y de.

### **Cheltenham Terrace, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar yr ochr orllewinol o bwynt 12 metr (11 llath) i'r de o ymyl palmant deheuol Free School Court am bellter o oddeutu 105 metr (115 llath) i gyfeiriad y de.

Ar yr ochr ddwyreiniol o bwynt 8 metr (11 llath) i'r de o ymyl palmant deheuol Free School Court am bellter o oddeutu 94 metr (103 llath) i gyfeiriad y de.

## **CYFLWYNO AROS CYFYNGEDIG 8AM-8PM - 2 AWR O AROS AR Y MWYAF - DIM DYCHWELYD O FEWN 4 AWR (DAN ADRAN 32 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984) NEU LEOEDD MARCIO TRWYDDEDAU PRESWYLWYR 8AM-8PM O DAN ADRAN 45 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984 (CILFAN DEFNYDD A RENNIR):**

### **Free School Court, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar yr ochr ogleddol o bwynt 35 metr (38 llath) i'r dwyrain o ymyl palmant gogleddol Nolton Street am bellter o tua 40 metr (44 llath) i gyfeiriad y dwyrain.

Ar ochr ogleddol o bwynt 75 metr (83 llath) i'r dwyrain o ymyl palmant gogleddol Nolton Street am bellter o oddeutu 82 metr (90 llath) i gyfeiriad y dwyrain.

Ar ôl ystyried materion a bennir yn Adran 32 a 45 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno'r cyfyngiadau parcio uchod.

## **GWAHARDDIAD AROS AR UNRHYW AMSER**

### **Free School Court, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar yr ochr ddeheuol yn ei bwynt terfynu dwyreiniol am bellter o oddeutu 4 metr (4 llath) i gyfeiriad y gorllewin.

Ar yr ochr ogleddol, yn ei bwynt terfynu dwyreiniol am bellter o oddeutu 6 metr (7 llath) i gyfeiriad y de.

Ar yr ochr ogleddol yn ei bwynt terfynu am bellter o oddeutu 4 metr (4 llath) i gyfeiriad y gorllewin.

### **Cheltenham Terrace, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar yr ochr ddwyreiniol o linell palmant ogleddol Suffolk Street am bellter o oddeutu 4 metr (4 llath) i gyfeiriad y gogledd.

### **Suffolk Street, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar yr ochr ogleddol o linell palmant dwyreiniol Cheltenham Terrace am bellter o oddeutu 4 metr (4 llath) i gyfeiriad y dwyrain.

Ar yr ochr ogleddol o bwynt 27 metr (30 llath) i'r dwyrain o ymyl palmant dwyreiniol Cheltenham Terrace am bellter o oddeutu 10 metr (11 llath) i gyfeiriad y dwyrain.

Ar yr ochr ogleddol o linell palmant gorllewinol Jenkin Street am bellter o oddeutu 5 metr (5 llath) i gyfeiriad y gorllewin.

Ar yr ochr ddeheuol o ymyl palmant gorllewinol Cheltenham Terrace am bellter o oddeutu 10m (11 llath) i gyfeiriad y dwyrain.

Ar yr ochr ddeheuol o ymyl palmant gorllewinol Jenkin Street am bellter o oddeutu 5 metr (5 llath) i gyfeiriad y gorllewin.

### **Jenkin Street, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar yr ochr orllewinol o linell palmant ogleddol Suffolk Street am bellter o oddeutu 5 metr (5 llath) i gyfeiriad y gogledd.

### **South Place, Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar yr ochr orllewinol o linell palmant ddeheuol Suffolk Street am bellter o oddeutu 5 metr (5 llath) i gyfeiriad y de.

Ar ochr orllewinol y ffordd, o bwynt 29 metr (32 llath) i'r de o ymyl palmant deheuol Suffolk Street am bellter o oddeutu 5 metr (5 llath) i gyfeiriad y de.

Ystyrir ei bod yn briodol gweithredu'r cyfyngiadau arfaethedig Gwaharddiad ar Aros ar Unrhyw Amser at y dibenion a geir yn Adran 1(c), 1(d) ac 1(f) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:

(c) ar gyfer hwyluso taith unrhyw ddosbarth o draffig ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall (gan gynnwys cerddwyr),

(d) ar gyfer atal y defnydd o'r ffordd gan draffig cerbydol o fath sydd, neu ei ddefnydd gan draffig cerbydol mewn modd sy'n anaddas o ystyried cymeriad presennol y ffordd neu'r eiddo cyfagos,

(f) ar gyfer gwarchod neu wella mwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn i gyflwyno'r cyfyngiadau ai peidio, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae adran 122(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor arfer y swyddogaethau a roddir arni gan Ddeddf 1984 (i'r graddau y mae'n ymarferol gan ystyried y materion a bennir yn adran 122(2)) i sicrhau bod cerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr) yn symud yn rhwydd, cyfleus a diogel, a darparu cyfleusterau parcio digonol ar ac oddi ar y briffordd.

Y materion y mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddynt yn a122(2) yw:

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i eiddo;
2. Effaith ar fwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar y defnydd o ffordd gan gerbydau masnachol trwm er mwyn gwarchod neu wella mwynderau'r ardaloedd y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddynt;
3. Y strategaeth ansawdd aer genedlaethol a baratowyd o dan adran 80 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso teithiau cerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a hwylustod pobl sy'n defnyddio neu'n dymuno defnyddio cerbydau o'r fath;

5. Unrhyw faterion eraill sy'n ymddangos i'r Cyngor yn berthnasol.

Ar ôl ystyried dyletswydd A122, ystyrir ei bod yn briodol cyflwyno'r cyfyngiadau parcio arfaethedig.

Dangosir y gorchymyn traffig arfaethedig ar y Lluniad Rhif **PARTH 8 0.2** sydd ynghlwm.

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan yr adran Rheoli Traffig.

Bydd y marciau ffyrdd cyfyngu yn cydymffurfio yn unol â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.